**SIARTER BRENHINOL BWRDEISTREF Y BALA O.C.1324 EDWARD II**

*O'r cofnod Lladin yn y Rhol Patent, 2 Rhisiart II, t. 2.*

Cyfarchion y brenin, at bawb o'r bobl hynny, ac yn y blaen. Archwiliwyd gennym siarter ein harglwydd Edward, diweddar frenin Lloegr a'n hendaid, yn y termau hyn. Edward, trwy ras Duw, Brenin Lloegr, Arglwydd Iwerddon a Dug Aquitaine, at ei archesgobion, esgobion, abadau, prioriaid, ieirll, barwniaid, prifustusiaid, siryfion, rhyfion, gweinidogion, ei feiliaid a'i ddeiliaid bob un, cyfarchion.

Gwybyddwch, gan i ni gael clywed yn ddiweddar fod drwgweithredwyr a lladron yn ymgynnull a chyfarfod yn rheolaidd yn yr ardal honno a elwir Penllyn yng Ngogledd Cymru, gan achosi i deithwyr ddioddef troseddau a cholledion di-rif wrth fynd trwy'r ardal, ein bod wedi awdurdodi sefydlu tref y Bala yn yr ardal ddywededig, trwy ein Prifustus yng Nghymru ar y pryd, er diogelwch y parthau hynny ac er mwyn lleihau'r drygioni a wneir gan ddrwgweithredwyr a lladron o'r fath; ac y dylai'r dref ddywededig fod yn fwrdeistref rydd; ac y dylai pawb sy'n byw yn y dref honno, ac a fydd yn byw yno yn y dyfodol, ynghŷd â'u hetifeddion a'u holynwyr, fod yn fwrdeisiaid rhydd, ac y dylent hwythau yn y fwrdeistref honno fwynhau rhai hawliau a rhyddfreiniau: ac yn awr o ganlyniad i ymchwiliad a wnaed yn ôl ein dymuniad gan ein hanwylaf was ffyddlon Edmund, Iarll Arundel, ein Prifustus yng Nghymru, a anfonwyd i lys ein canghellor, cafwyd arddeall i'r dref ddywededig gael ei sefydlu er ein budd ac er diogelwch y parthau hyn, ac i rwystro gweithredoedd drwg y dihirod a'r lladron yn yr ardal, ac na fydd yn achosi anfantais na niwed i ni nac

i neb arall pe baem yn rhoi i'n deiliaid a'n tenantiaid Seisnig sy'n byw yn y dref honno, sef y Bala, trwy ein siarter, yr hawl i'r dref honno fod yn fwrdeistref rydd, hawl a roddwyd gennym ni a'n hetifeddion am byth, ac y dylai'r deiliaid eu hunain a'r tenantiaid barhau i gynnal un farchnad bob wythnos yn y dref ddywededig am ddiwrnod cyfan ar y dydd Sabath, a dwy ffair bob blwyddyn i barhau am chwe diwrnod, sef un ar noswyl, dydd gwyl a thrannoeth dygwyl yr apostolion Pedr a Phawl, a'r llall ar noswyl, dydd gwyl a thrannoeth dygwyl Darganfod y Groes Sanctaidd, ynghŷd â'r hawliau a'r rhyddfreiniau sy'n perthyn i farchnadoedd a ffeiriau o'r fath; ac y byddant yn mwynhau'r holl hawliau a'r rhyddfreiniau a roddwyd gynt i'n deiliaid yng Nghaernarfon trwy siarter ein tad, yr arglwydd Edward, diweddar frenin Lloegr.

Gan ddymuno dangos ffafr arbennig i'n deiliaid a'n bwrdeisiaid Seisnig yn ein tref ddywededig, sef y Bala, yn y rhanbarth hwn, rhoddasom iddynt, a chadarnhawyd hynny trwy'r siarter hwn o'n heiddo, o'n rhan ein hunain ac ar ran ein hetifeddion am byth, yr hawl i dref ddywededig y Bala fod yn fwrdeistref rydd; ac y dylai ein deiliaid a'n bwrdeisiaid Seisnig o'r un dref, sy'n byw yno ar hyn o bryd ac a fydd yn byw yno yn y dyfodol, a'u hetifeddion a'u holynwyr, fod yn fwrdeisiaid rhydd; ac y gallent hwy eu hunain amgau'r fwrdeistref â ffos a mur o gerrig a chalch; a phob blwyddyn ar ddygwyl Sant Mihangel dylent ddewis maer o'u plith eu hunain, a ddylai, yn union wedi'r etholiad, gymryd llw i ni ar Efengyl sanctaidd ein Harglwydd ynglyn â chadw ein cyfreithiau, ac yna lw i'r bwrdeisiaid y bydd yn cynnal yr hawliau a roddwyd iddynt gennym ni, a chyflawni'n ffyddlon y dyletswyddau sy'n rhan o swydd y maer yn y fwrdeistref honno; a'r un modd dylent ddewis ddau feili addas a chymwys, a ddylai, ym

mhresenoldeb y maer a'r bwrdeisiaid y soniwyd amdanynt eisoes, gymryd llw ar Efengyl sanctaidd ein Harglwydd y byddant yn cyflawni a gweithredu'n ffyddlon swydd y beili a roddwyd iddynt; ac y dylai'r deiliaid a'r bwrdeisiaid hynny a'u hetifeddion a'u holynwyr gynnal marchnad yn y dref honno bob wythnos ar y dydd Sabath, a dwy ffair bob blwyddyn yn yr un lle i barhau am chwe diwrnod, sef un ar noswyl, dydd gwyl a thrannoeth dygwyl yr apostolion Pedr a Phawl, a'r llall ar noswyl, dydd gwyl a thrannoeth dygwyl Darganfod y Groes Sanctaidd, oni bai fod y marchnadoedd a'r ffeiriau hynny'n creu rhwystr i farchnadoedd a ffeiriau eraill yn y gymdogaeth; ac y dylent gael eu carchar annibynnol eu hunain yn y fwrdeistref ddywededig ar gyfer troseddwyr y lle hwnnw, ac eithrio achosion o fywyd a niwed corfforol; yn yr achosion hynny bydd pawb, y bwrdeisiaid ac eraill, yn cael eu carcharu yn ein carchar yn Harlech; er hynny, pe bai unrhyw un o'r bwrdeisiaid hynny'n cael eu beio neu eu cyhuddo o drosedd heb fod yn achos o fywyd na niwed corfforol, nid ydym am iddynt gael eu carcharu yn yr achosion hynny, cyn belled ag y bônt yn gallu darparu mechnïaeth ddigonol i sefyll eu prawf o flaen ein prifustus neu ustus arall o'n heiddo a benodwyd i'r perwyl hwnnw; ac y bydd unrhyw dir a roddwyd i'r dref hon i'w gyfrif yn gyfangwbl y tu allan i bob warren a fforest o'n heiddo; ac y bydd breintiau'r bwrdeisiaid eu hunain a'u hetifeddion a'u holynwyr yn cael eu gosod am byth, hynny yw, na fydd unrhyw siryf na beili arall o'n heiddo yn ymyrryd uwch eu pennau mewn unrhyw achos cyfreithiol, cweryl neu achos arall yn ymwneud â'r dref ddywededig, ar yr amod nad yw hynny'n effeithio ar ein diogelwch ni a'n hetifeddion a'n prifustusiaid yng Nghymru sy'n gweithredu yno yn enw'r goron; ac y byddant yn cael cynnal urdd fasnachol a tholldy ynghyd â'r arferion a'r hawliau sy'n gysylltiedig ag urdd o'r fath, fel na bo unrhyw un nad yw'n aelod o'r urdd honno'n gallu aros yn y dref i weithio yno fel

masnachwr ac eithrio'n ôl dymuniad y bwrdeisiaid hynny; a phe bai taeog unrhyw un yn aros yn y fwrdeistref ddywededig, gan ddal tir neu eiddo yn yr un fwrdeistref a bod yn yr urdd a'r tolldy dywededig a thalu'r un dreth a'n deiliaid ni am un flwyddyn a diwrnod heb ei herio, yna ni fydd modd iddo gael ei adfeddiannu gan ei feistr, ond dylai gael aros yn ŵr rhydd yn y fwrdeistref ddywededig; ac y dylai ein deiliaid a'n bwrdeisiaid a'u hetifeddion a'u holynwyr dderbyn elw'r llysoedd, tollau masnachol, arian mechnïaeth a hawliau cyfreithiol; ac y dylent gael eu rhyddhau rhag gorfod talu tollau ar fewnforion ac allforion ym mhob rhan o'r wlad, na threthi ar deithwyr, na'r dreth furiau, y dreth bontydd, y dreth ffordd na'r dreth ar stondinwyr, nag unrhyw fath arall o dreth, na thollau na thaliadau eraill yn unrhyw ran o'n teyrnas, boed yn Lloegr neu unrhyw ran arall o'n tiriogaethau; ac nad yw'r bwrdeisiaid eu hunain na'u heiddo, ym mha le bynnag y bônt yn ein teyrnas, i gael eu meddiannu am unrhyw ddyled na lwyddwyd i sicrhau mechnïaeth neu brif feichiau ar ei chyfer, oni bai fod y dyledwyr hynny'n digwydd cael gafael ar fodd i gyfarfod â'r ddyled yn gyfangwbl neu yn rhannol oddi wrth y gymuned neu eraill o'r deyrnas, a bod y bwrdeisiaid hynny wedi methu â bodloni credydwyr y dyledwyr hynny yn y llys ac wedi llwyddo i ddod i gytundeb rhesymol ynglŷn â hyn; ac na fydd y bwrdeisiaid hynny, oherwydd trosedd a gyflawnwyd gan eu gweision, yn colli nwyddau a meddiannau o'u heiddo a gafwyd ar eu tiroedd eu hunain neu a roddwyd mewn lle arall gan y gweision hynny, ar yr amod eu bod yn gallu rhoi prawf digonol mai eu nwyddau hwy ydynt; ac yn ogystal, pe bai'r bwrdeisiaid hynny'n marw o fewn ein tiriogaeth a'n teyrnas gydag ewyllys neu'n ddiewyllys, ni fyddwn ni na'n hetifeddion yn achosi i'w nwyddau gael eu meddiannu fel na bo'u hetifeddion hwy'n eu derbyn yn gyfan, ar yr amod ei fod yn ddealladwy bod y nwyddau hynny'n perthyn i'r person

ymadawedig hwnnw, ac eto, ynglŷn â'r etifeddion hynny, ar yr amod fod gwybodaeth ac ymddiriedaeth ddigonol ar gael yn eu cylch; ac na fydd y bwrdeisiaid hynny'n cael eu dedfrydu o ganlyniad i unrhyw gyhuddiad, niwed, troseddau, ceisiadau na hawliau a wnaed yn eu herbyn gan estroniaid yn sir Feirionnydd, ond o ganlyniad i gyhuddiad a wnaed gan y bwrdeisiaid yn unig, oni bai ei fod yn ymwneud â chymuned y fwrdeistref ei hun, ac mewn achos o'r fath byddant yn cael eu rhoi ar brawf yn ôl y rhyddfreiniau a gafodd eu cymeradwyo ac sy'n cael eu harfer am byth yn ein bwrdeistref yng Nghaernarfon. Gan hynny rydym yn dymuno ac yn rhoi gorchymyn pendant o'n rhan ein hunain ac ar ran ein hetifeddion, y bydd y dref ddywededig, sef y Bala ac yn y blaen, yn fwrdeistref rydd, ac y dylai ein deiliaid a'n bwrdeisiaid Seisnig o'r un dref, sy'n byw yno ar hyn o bryd ac a fydd yn byw yno yn y dyfodol, a'u hetifeddion a'u holynwyr, fod yn fwrdeisiaid rhydd; ac y gallent hwy eu hunain amgau'r fwrdeistref â ffos a mur o gerrig a chalch; a phob blwyddyn ar ddygwyl Sant Mihangel dylent ddewis maer o'u plith eu hunain, a ddylai yn union wedi'r etholiad gymryd llw i ni ar Efengyl sanctaidd ein Harglwydd ynglyn â chadw ein cyfreithiau, ac yna lw i'r bwrdeisiaid y bydd yn cynnal yr hawliau a roddwyd iddynt gennym ni, a chyflawni'n ffyddlon y dyletswyddau sy'n rhan o swydd y maer yn y fwrdeistref honno; a'r un modd dylent ddewis ddau feili addas a chymwys, a ddylai, ym mhresenoldeb y maer a'r bwrdeisiaid y soniwyd amdanynt eisoes, gymryd llw ar Efengyl sanctaidd ein Harglwydd y byddant yn cyflawni a gweithredu'n ffyddlon swydd y beili a roddwyd iddynt; ac y dylai'r deiliaid a'r bwrdeisiaid hynny a'u hetifeddion a'u holynwyr gynnal marchnad bob wythnos ar y dydd Sabath yn y dref honno, a dwy ffair bob blwyddyn yn yr un lle i barhau am chwe diwrnod, sef un ar noswyl, dydd gwyl a thrannoeth dygwyl yr apostolion Pedr a Phawl, a'r llall ar noswyl, dydd gwyl a thrannoeth dygwyl Darganfod y

Groes Sanctaidd, oni bai fod y marchnadoedd a'r ffeiriau hynny'n creu rhwystr i farchnadoedd a ffeiriau eraill yn y gymdogaeth; ac y dylent gael eu carchar annibynnol eu hunain yn y fwrdeistref ddywededig ar gyfer troseddwyr y lle hwnnw, ac eithrio achosion o fywyd a niwed corfforol; yn yr achosion hynny bydd pawb, y bwrdeisiaid ac eraill, yn cael eu carcharu yn ein carchar yn Harlech; er hynny, pe bai unrhyw un o'r bwrdeisiaid hynny'n cael eu beio neu eu cyhuddo o drosedd heb fod yn achos o fywyd na niwed corfforol, nid ydym am iddynt gael eu carcharu yn yr achosion hynny cyn belled ag y bônt yn gallu darparu mechnïaeth ddigonol i sefyll eu prawf o flaen ein prifustus neu ustus arall o'n heiddo a benodwyd i'r perwyl hwnnw; ac y bydd unrhyw dir a roddwyd i'r dref hon i'w gynnwys yn gyfangwbl y tu allan i bob warren a fforest o'n heiddo; ac y bydd breintiau'r bwrdeisiaid eu hunain a'u hetifeddion a'u holynwyr yn cael eu gosod am byth, hynny yw, na fydd unrhyw siryf na beili arall o'n heiddo yn ymyrryd uwch eu pennau mewn unrhyw achos cyfreithiol, cweryl neu achos arall yn ymwneud â'r dref ddywededig, ar yr amod nad yw hynny'n effeithio ar ein diogelwch ni a'n hetifeddion a'n prifustusiaid yng Nghymru sy'n gweithredu yno yn enw'r goron; ac y byddant yn cael cynnal urdd fasnachol a thollty ynghyd â'r arferion a'r hawliau sy'n gysylltiedig ag urdd o'r fath, fel na bo unrhyw un nad yw'n aelod o'r urdd honno'n gallu aros yn y dref i weithio yno fel masnachwr ac eithrio'n ôl dymuniad y bwrdeisiaid hynny; a phe bai taeog unrhyw un yn aros yn y fwrdeistref ddywededig, gan ddal tir neu eiddo yn yr un fwrdeistref a bod yn yr urdd a'r tolldy dywededig a thalu'r un dreth a'n deiliaid ni am un flwyddyn a diwrnod heb ei herio, yna ni fydd modd iddo gael ei adfeddiannu gan ei feistr, ond dylai gael aros yn ŵr rhydd yn y fwrdeistref ddywededig; ac y dylai ein deiliaid a'n bwrdeisiaid a'u hetifeddion a'u holynwyr dderbyn elw'r llysoedd, tollau masnachol,

arian mechnïaeth a hawliau cyfreithiol; ac y dylent gael eu rhyddhau ym mhob rhan o'r wlad rhag gorfod talu tollau ar fewnforion ac allforion, na threthi ar deithwyr, na'r dreth furiau, y dreth bontydd, y dreth ffordd na'r dreth ar stondinwyr, nag unrhyw fath arall o dreth, na thollau na thaliadau eraill yn unrhyw ran o'n teyrnas, boed yn Lloegr neu unrhyw ran arall o'n tiriogaethau; ac nad yw'r bwrdeisiaid eu hunain na'u heiddo, ym mha le bynnag y bônt yn ein teyrnas, i gael eu meddiannu am unrhyw ddyled na lwyddwyd i sicrhau mechnïaeth neu brif feichiau ar ei chyfer, oni bai fod y dyledwyr hynny'n digwydd cael gafael ar fodd i gyfarfod â'r ddyled yn gyfangwbl neu yn rhannol oddi wrth y gymuned neu eraill o'r deyrnas, a bod y bwrdeisiaid hynny wedi methu â bodloni credydwyr y dyledwyr hynny yn y llys ac wedi llwyddo i ddod i gytundeb rhesymol ynglyn â hyn; ac na fydd y bwrdeisiaid hynny, oherwydd trosedd a gyflawnwyd gan eu gweision, yn colli nwyddau a meddiannau o'u heiddo a gafwyd ar eu tiroedd eu hunain neu a roddwyd mewn lle arall gan y gweision hynny, ar yr amod eu bod yn gallu rhoi prawf digonol mai eu nwyddau hwy ydynt; ac yn ogystal, pe bai'r bwrdeisiad hynny'n marw o fewn ein tiriogaeth a'n teyrnas gydag ewyllys neu'n ddiewyllys, ni fyddwn ni na'n hetifeddion yn achosi i'w nwyddau gael eu meddiannu fel na bo'u hetifeddion hwy'n eu derbyn yn gyfan, ar yr amod ei fod yn ddealladwy bod y nwyddau hynny'n perthyn i'r person ymadawedig hwnnw, ac eto, ynglŷn â'r etifeddion hynny, ar yr amod fod gwybodaeth ac ymddiriedaeth ddigonol ar gael yn eu cylch; ac na fydd y bwrdeisiaid hynny'n cael eu dedfrydu o ganlyniad i unrhyw gyhuddiad, niwed, troseddau, ceisiadau na hawliau a wnaed yn eu herbyn gan estroniaid yn sir Feirionnydd, ond o ganlyniad i gyhuddiad a wnaed gan y bwrdeisiaid yn unig, oni bai ei fod yn ymwneud â chymuned y fwrdeistref ei hun, ac mewn achos o'r fath byddant yn cael eu rhoi ar brawf yn ôl y

rhyddfreiniau a gafodd eu cymeradwyo ac sy'n cael eu harfer am byth yn ein bwrdeistref yng Nghaernarfon. Yn dystion i hyn, y gwir barchedig dadau Walter, Archesgob Caergaint, Primas Lloegr gyfan, yr esgobion Walter o Gaer-Wysg, ein trysorydd, a John o Norwich, Adam de Valence, Iarll Penfro, Edmund, Iarll Arundel, Hugh Despenser, Iarll Winchester, Hugh de Courteney, Robert o'r Wyddgrug, Richard Damory, ein senysgal, ac eraill. Rhoddwyd dan ein llaw yn San Steffan ar y dydd cyntaf o Fehefin yn yr ail flwyddyn ar bymtheg o'n teyrnasiad. Rydym, yn ogystal, wedi ystyried y rhodd a'r consesiwn dywededig, gan gredu cyn belled ag y gallwn o'n rhan ni ac ar ran ein hetifeddion eu bod yn cytuno, yn rhoi i fwrdeisiaid y fwrdeistref honno ac i'w hetifeddion a'u holynwyr fel bwrdeisiaid yn yr un fwrdeistref, a'i gadarnhau yn rhesymol fel y tystia'r siarter dywededig, ac yn unol â'r hyn y bu'r bwrdeisiaid a'r deiliaid a'u rhagflaenwyr yn eu harfer a'u mwynhau hyd yn hyn, y rhyddfreiniau a'r breintiau y soniwyd amdanynt o'r pryd y cyflawnwyd y siarter dywededig, ac yn y blaen. Tystiwyd gan y Brenin yn San Steffan ar y trydydd dydd o Fehefin.

am bum morc a dalwyd i'r trysorlys.